# ATODLEN 6

# LESOEDD

## RHAN 3

## RHENT A CHYDNABYDDIAETH ARALL

*Benthyciad neu flaendal mewn cysylltiad â rhoi neu aseinio les*

19 (1) Pan fo, o dan drefniadau a wneir mewn cysylltiad â rhoi les—

(a) y tenant, neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â'r tenant neu'n gweithredu ar ei ran, yn talu blaendal neu'n rhoi benthyciad i unrhyw berson, a

(b) ad-dalu'r blaendal neu'r benthyciad cyfan, neu ran o'r blaendal neu'r benthyciad, yn dibynnu ar unrhyw beth a wneir gan y tenant neu unrhyw beth na wneir ganddo, neu ar ei farwolaeth,

mae swm y blaendal neu'r benthyciad (gan ddiystyru unrhyw ad-daliad) i'w gymryd at ddibenion y Ddeddf hon i fod yn gydnabyddiaeth heblaw am rent a roddir am y les.

(2) Pan fo, o dan drefniadau a wneir mewn cysylltiad ag aseinio les—

(a) yr aseinai, neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig ag ef neu'n gweithredu ar ei ran, yn talu blaendal neu'n rhoi benthyciad i unrhyw berson, a

(b) ad-dalu'r blaendal neu'r benthyciad cyfan, neu ran o'r blaendal neu'r benthyciad, yn dibynnu ar unrhyw beth a wneir gan yr aseinai neu unrhyw beth na wneir ganddo, neu ar ei farwolaeth,

mae swm y blaendal neu'r benthyciad (gan ddiystyru unrhyw ad-daliad) i'w gymryd at ddibenion y Ddeddf hon i fod yn gydnabyddiaeth heblaw am rent a roddir am aseinio'r les.

(3) Nid yw is-baragraff (1) na (2) yn gymwys mewn perthynas â blaendal os nad yw'r swm a fyddai, fel arall, yn dod o fewn yr is-baragraff o dan sylw mewn perthynas â rhoi'r les neu aseinio'r les yn fwy na dwywaith yr uchafswm rhent perthnasol.

(4) Yr uchafswm rhent perthnasol yw—

(a) mewn perthynas â rhoi les, y swm uchaf o rent sy'n daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod o 12 mis yn olynol yn ystod 5 mlynedd gyntaf cyfnod y les;

(b) mewn perthynas ag aseinio les, y swm uchaf o rent sy'n daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod o 12 mis yn olynol sydd o fewn 5 mlynedd gyntaf y cyfnod sy'n dal yn weddill ar ddyddiad yr aseiniad.

(5) Wrth bennu y swm uchaf o rent at ddibenion is-baragraff (4)—

(a) diystyrier paragraffau 7(2) ac 8(3) (pan roddir les bellach, gostyngiad tybiedig mewn rhent ar gyfer y cyfnod o orgyffwrdd), a

(b) os oes angen, ystyrier unrhyw symiau a bennir yn unol â pharagraff 10(2)(b) (pennu rhent dibynnol, ansicr neu heb ei ganfod).

(6) Nid yw treth i'w chodi yn rhinwedd y paragraff hwn pe na byddai i'w chodi ond o ganlyniad i gymhwyso paragraff 34 (sy'n eithrio'r band cyfradd sero mewn achosion pan na fo'r rhent perthnasol sydd i'w briodoli i eiddo amhreswyl yn llai na £1,000 y flwyddyn) i swm o gydnabyddiaeth drethadwy a bennir o dan is-baragraff (1) neu (2).